

bydd yn rhoi gwybod i ni os oes unrhyw rwystrau, neu os yw lefel y dŵr yn y risg yn debygol o greu perygl llifogydd agos.

Beth y gallaf ei wneud?

Byddwn yn gofyn i'r holl breswylwyr barhau i fod yn ymwybodol o'r perygl o lifogydd. Mae sawl ffynhonnell perygl llifogydd bosib yn yr ardal:-

1. Dŵr wyneb yn llifo lawr y caeau uwchben eich eiddo;
2. Gormod o ddŵr i'r systemau draenio allu ymdopi ag ef; a
3. Dŵr daear yn mynd i mewn i eiddo drwy isloriau a hefyd drwy sylfeini lle nad oes cwrs atal lleithder.

Er mwyn rheoli'r risgiau rydym yn gofyn i'r holl breswylwyr ystyried dulliau gwarchod eiddo. Mae'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol yn elusen annibynnol a sefydlwyd i helpu a chynghori cymunedau sydd mewn peryg.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn ymweld â'u gwefan

www.nationalfloodforum.org.uk i gael mwy o wybodaeth am sut gallwch warchod eich eiddo.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r **Adran Amgylchedd, Ffyrrdd a Chyfleusterau** ar **01492 575337**, gan nodi rhif cyfeirnod **Dec2015-FE1008** a bydd aelod o'r tîm llifogydd ar gael i'ch cynghori.



Cymdeithas Hanes Dolwyddelan

Dydd Llun 1af o'r mis – 7yr – Ysgoly Pentref
Raffl misol - Lluniaeth ysgafn – Croeso i ymwelwyr

1^{af} Hydref

Parc Cenedlaethol Eryri.
Archeoleg yn yr Awdurdod
(Gorffennol, presennol
a'r dyfodol)

5^{ed} Tachwedd
Hanes Ysbyty
Ifan

3^{ydd} Rhagfyr
"Toiledau Crand"
(Golwg ar doiledau
plastai Prydain)

Taliadau Llogi'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a . . .

Liz Roberts 01690 750 246

Bob Valintine 01690 750 205

Teleri Jones 07776 192 297

Eunice Cawley 01690 750 268

Brif Ystafell	Busnes	Lleol / Elusen
Cyfradd yr Awr	£25	£10
Hanner Diwrnod	£50	£20
Diwrnod Llawn	£75	£35